# CYLCHLYTHYR 11.04.25

## PASG HAPUS PAWB!

### Presenoldeb

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 23-24 | 88.5% | Targed 24 – 25 | 92% | Y flwyddyn hyd yma | 89.70% |

### Gwirfoddolwyr garddio

Diolch yn fawr iawn i bob un o'm gwirfoddolwyr sydd wedi helpu ni dros yr wythnosau diwethaf. Rydym yn falch iawn o'r datblygiadau sydd wedi digwydd yn gyflym, diolch i'ch cymorth! Rydym yn edrych ymlaen at groesawu chi nol i weld y tyfiant a'r cynnydd dros yr wythnosau nesaf.








## Cyngerdd Rock Steady

Cawsom wledd o dalent a pherfformiadau gwefreiddiol gan ein disgyblion talentog sydd wedi bod yn mynychu "Rock Steadyl" dros y tymor. Da iawn chi blant – sêr y dyfodol!







## Gŵyl Rygbi'r Urdd

Ddydd Llun, dangosodd ein disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 eu talent a'u gwaith tîm anhygoel yn yr ŵyl rygbi blynyddol Urdd. Enillodd y tîm yn erbyn Pwll Coch a Chreigiau gyda pherfformiadau trawiadol, gan ddangos eu sgiliau a'u penderfyniad. Er iddynt golli'n agos i Berllan Deg a Howardian, roedd eu hymdrech yn wych trwy gydol y digwyddiad. Mwynhaodd y disgyblion y cyfle i gynrychioli tîm yr ysgol, gan wneud i ni i gyd deimlo'n falch gyda'u hymroddiad a'u chwaraeon. Da iawn, tîm! 🏉👏





Ddydd Iau, dangosodd ein disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 eu dawn a'u gwaith tîm rhagorol yn yr ŵyl rygbi blynyddol Urdd. Cyrhaeddodd y tîm y rowndiau chwarter olaf, gan ddangos eu sgiliau a'u penderfyniad. Er iddynt golli'n agos i'r Wern, roedd eu hymdrech yn ardderchog trwy gydol y digwyddiad. Mwynhaodd y disgyblion y cyfle i gynrychioli tîm yr ysgol, gan wneud i ni i gyd deimlo'n falch gyda'u hymroddiad a'u chwaraeon. Da iawn, tîm! 🏉👏

## Cynllun Dreigiau Calzaghe

Ers mis Ionawr, mae disgyblion Bl 5 & 6 wedi bod yn cymryd rhan yn rhaglen Calzaghe Mini Dragons – dosbarth bocsio di-gyswllt hwyliog yn yr ysgol. Peidiwch â phoeni, doedd dim ymladd—dim ond dysgu symudiadau cŵl a chadw'n egnïol! Roedd yn seiliedig ar gael hwyl, dysgu sgiliau newydd, a bod y fersiwn orau o'ch hun. Bwriad y cynllun oedd i'r disgyblion:

- deimlo'n hapusach ac yn fwy hyderus.
- ganolbwyntio a gwneud yn well yn yr ysgol.
- aros yn iach ac yn gryf.
- fod yn garedig a gweithio'n dda gydag eraill.
- ddysgu rheoli eu hun a pharhau i geisio, hyd yn oed pan fydd pethau'n anodd.

Rydym yn hynod falch o'r disgyblion dros y 12 wythnos diwethaf. Mae eu gwaith caled, eu dyfalbarhad, a'u brwdfrydedd wedi bod yn wir ysbrydoledig. Mae pob disgybl wedi dangos cynnydd a phenderfyniad rhyfeddol, gan wynebu'r heriau a dysgu sgiliau gwerthfawr ar hyd y ffordd. Da iawn i bawb a gymerodd ran am gynrychioli ein hysgol gyda chymaint o angerdd a rhagoriaeth! Gallwch weld lluniau unigol o'ch plentyn yn cwrdd â Joe Calzaghe trwy ddilyn y ddolen yma. Gofynnwn i chi beidio rhannu unrhyw luniau o blant eraill.🥊👏



## Raffle Pasg Ffrindiau Coed-y-Gof

Codwyd £238 punt yn raffl Pasg y Ffrindiau – swm sylweddol i ychwanegu at y cronfa i bryniu andnoddau chware i'r plant. Diolch yn fawr i'r trefnwyr ac i chi am gymryd rhan!

## Byrbryd



Rydym yn eich annog i ddarparu byrbryd ffrwythau i'ch plentyn ei fwyta yn ystod y bore. Fodd bynnag, rydym yn gynyddol bryderus bod disgyblion yn bwyta byrbrydau nad ydynt yn iach e.e. creision, losin, siocled. Rydym yn dilyn egwyddorion "Ysgolion Iach" a byddwn yn ceisio dros yr wythnosau nesaf i leihau faint o fyrbrydau wedi'u prosesu sy'n cael eu bwyta gan blant yn yr ysgol. Mae'r byrbrydau yma hefyd yn creu llawer o sbwriel ar dir yr ysgol ac yn yr ardal leol, ac mae'r Eco Gyngor yn brysur yn casglu sbwriel sawl gwaith yr wythnos.

Os nad oes byrbryd gyda'ch plentyn fe fydd cyflenwad bach ar gael yn yr ysgol i sicrhau bod pob dysgwr yn bwyta rhywbeth yn ystod y bore.

Beth am roi cynnig ar ddysgu enwau Cymraeg ffrwythau gyda'ch plentyn?

| | |
|---|---|
| Orange | Oren |
| Apple | Afal |
| Banana | Banana |
| Grapes | grawnwin |

| | |
|---|---|
| Kiwi | Ciwi |
| Watermelon | Melon ddŵr |
| Strawberry | Mefus |
| Pineapple | Pinafal |

# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 11.04.25 | Dathlu dysgu dosbarth Collen – rhiei a phlant yn mynd i'r goedwig! |
| GWYLIAU PASG 14/04 – 25/04/25<br>YSGOL YN AIL-AGOR DYDD LLUN 28/04/25<br><br>CLWB BWRLWM YN YR YSGOL 14-17/4 A 22-24/4 Gweler y poster isod | |
| 29.04.25 | AGM Ffrindiau Coed-y-Gof – yn yr ysgol |
| 29.04.25 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 30.04.25 | Sgrinio clyw – dal-lan |
| 05.05.25 | Gŵyl y Banc Calan Mai – ysgol ar gau |
| 13-15.05.25 | Nosweithiau rieni – linc i ddilyn i fwcio amser |
| 14.05.25 | Bl 6 Trip i Ysgol Newyddiadureg gyda Pasbort i'r Ddinas |
| 15.05.25 | Mabolgampau Dysgu Sylfaen 9:30 – 11:30 |
| 22.05.25 | Mabolgampau Dysgu Iau 9:30 – 12:00 |
| 23.05.25 | Trip i weld "Y Naid" Bl 6 |
| GWYLIAU HANNER TYMOR 26-30/05/25 | |
| 04.06.25 | Sesiwn i rieni – Darllen adref |
| 04.06.25 | Trip Bl 6 i Brifysgol De Cymru (Pasport i'r Ddinas) |
| 05.06.25 | Llun Ysgol Gyfan (bore) |
| 11.06.25 | Cyfarfod i rieni bl 4 am y trip i Storey Arms 4:30 – 5 |
| 23-27/6 &<br>30/6 – 4/7 | Gwersi nofio i flwyddyn 4 (10 diwrnod) |
| 24.06.25 | Bl 6 Pontio Plasmawr 1 |
| 01.07.25 | Bl 6 Pontio Plasmawr 2 |
| 01.07.25 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 11.06.25 | Cyfarfod i rieni bl 5 am y trip i Langrannog 4:30 – 5 |
| 08.07.25 | Bl 6 Pontio Plasmawr 3 |
| 18.07.25 | Diwedd y Tymor i ddisgyblion |
| 21.07.25 | HMS YSGOL AR GAU I DDISGYBLION |

# GWEITHGAREDDAU GWYLIAU'R PASG

## Gwersyll Rygbi

Mae Sefydliad Rygbi Cymunedol Caerdydd, mewn partneriaeth ag URC yn cynnal gwersyllo rygbi lleol yn ystod gwyliau'r Pasg.

Mae'r gwersylloedd hyn yn rhad ac am ddim ac yn agored i bawb rhwng 6–11 oed, am ddiwrnod llawn hwyl o fod yn egnïol. Mae'r gwersylloedd hyn yn cael eu cynnal mewn nifer o wahanol leoliadau ar draws ein rhanbarth i roi cyfle i blant gadw'n heini yn ystod hanner tymor, yn ogystal â darparu brecwast a chinio. Er y bydd rhai gweithgareddau rygbi, mae'r gwersylloedd hyn yn agored i bob plentyn, nid yn unig y rhai sydd â diddordeb mewn rygbi, a bydd gweithgareddau amgen yn cael eu darparu hefyd.

**Dyma'r manylion:**

- Pris: AM DDIM
- Pryd: 24/04/25 –
- Amser: 10am–2pm
- Ble: Clwb Rygbi'r Tyllgoed
- Bwyd: brecwast a chinio
- Beth sydd angen?: dillad addas, cot,esgidiau addas (bydd gweithgareddau'n cymryd rhan ar laswellt) unrhyw feddygyniaeth angenrheidiol

Cofrestrwch yma: https://forms.gle/3yVXZ3YYtXVw2TAR6

Cyfyngir y niferoedd i 50 felly cofrestrwch mor fuan â phosib.


CYNLLUN CHWARAE AGORED
BWRLWM PASG!
OPEN ACCESS PLAY SCHEME
W1 14-17/4/25
W2 22-24/4/25
DOSBARTH DERBYN - BLWYDDYN 6
COFRESTRU AR Y DYDD/
REGISTER ON THE DAY!
Celf a chrefft/
art and craft
chwaraeon/
sport
Paentio gwyneb/
facepaint
Lego/
Gemau bwrdd/
Helfa wyau/
Easter egg hunt
Arlwy eang ar gael mewn 6 lleoliad!
Cer i'n gwefan am
wybodaeth!
www.mentercaerdydd.cymru
AM DDIM!
FREE!
Am faterion anghenion cefnogi:
For support needs:
mari@mentercaerdydd.cymru
Bwrlwm is a Welsh medium play provision.
menter caerdydd
CARDIFF
CAERDYDD
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae
Playworks Holiday Project
Rhif Elusen / Charity Number: 1098606
Rhif Cwmni / Company Number: 4576565







AM DDIM! FREE!

CYNLLUN CHWARAE AGORED

# BWRLWM PASG!

OPEN ACCESS PLAY SCHEME

**DOSBARTH DERBYN - BLWYDDYN 6**
**RECEPTION - YEAR 6**
**COFRESTRU AR Y DYDD/ REGISTER ON THE DAY**

***W1 14-17/4/25**
***W2 22-24/4/25**

**Ysgol Glan Morfa**
**CF24 5ER**
10:30 - 12:25

**Ysgol Hamadryad**
**CF10 5UY**
13:30 - 15:25

**Ysgol Coed y Gof**
**CF5 3SG**
10:30 - 12:25

**Ysgol Nant Caerau**
**CF5 5QZ**
13:30 - 15:25

**Ysgol Berllan Deg**
**CF23 9LD**
10:30 - 12:25

**Ysgol Mynydd Bychan**
**CF14 3BR**
13:30 - 15:25

www.mentercaerdydd.cymru

AM DDIM! FREE!

menter caerdydd

CARDIFF CAERDYDD

**Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae**
**Playworks Holiday Project**



CYNLLUN CHWARAE AGORED
BWRLWM PASG!
OPEN ACCESS PLAY SCHEME
W1 14-17/4/25
W2 22-24/4/25
DOSBARTH DERBYN - BLWYDDYN 6
RECEPTION - YEAR
COFRESTRU AR Y DYDD/ REGISTER ON THE DAY
Arlwy eang ar gael - 6 lleoliad!
Wide range of activities - 6 locations!
Gweithdy Clai!
14/4/25 Ysgol Berllan Deg 10:30am
16/4/25 Ysgol Glan Morfa 10:30am/
Ysgol Hamadryad 13:30pm
Gemau gyda Dewi!
16/4/25 Ysgol Coed y Gof 10:30am/
Ysgol Nant Caerau 13:30pm
17/4/25 Ysgol y Berllan Deg
23/4/25 Ysgol y Berllan Deg
Gweithdy Cacen Pasg!
14/4/25 Ysgol Coed y Gof 10:30am
Ysgol Nant Caerau 13:30pm
15/4/25 Ysgol Berllan Deg 10:30am/
Ysgol Mynydd Bychan 13:30pm
16/4/25 Ysgol Glan Morfa 10:30am/
Ysgol Hamadryad 13:30pm
chwaraeon/ sport
Celf a chrefft/ Art and craft
Chwarae meddal/ Soft play
Paentio gwyneb/ Face paints
Lego/ Gemau bwrdd/
AM DDIM! FREE!
Am faterion anghenion cefnogi:
For support needs:
mari@mentercaerdydd.cymru
Bwrlwm is a Welsh medium play provision.
menter caerdydd
CARDIFF CAERDYDD
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Rhif Elusen / Charity Number: 1098606
Rhif Cwmni / Company Number: 4576565

Adran Nofio Yr Urdd
Swyddfa'r Urdd
14 Lambourne Crescent
Llanishen
Caerdydd
CF14 5GF

Annwyl rhiant,

Ymunwch efo ni dros y Gwyliau Pasg yma! Mae'r Adran Nofio Yr Urdd yn cynnal Nofio Dwys i chi!

Manylion:

| | | |
|---|---|---|
| **C.H y Gorllewin**<br>**Lon Caerau, Caerdydd**<br>**CF5 5HJ**<br>**Oed 3+** | **£26**<br>**08:00 – 09:00**<br>**22/04 – 25/04/25** | **Sblash + Ton 2** 08:00-08:30<br>**Ton 1 + Ton 3** 08:30-09:00 |

Er mwyn cofrestru eich plentyn, plîs dilyn y linc neu QR code canlynol:

https://gweithgareddau.urdd.cymru/

Mae llefydd ar gael yn ein gwersi nofio wythnosol hefyd! Os hoffwch gael fwy o wybodaeth plîs cysylltwch efo ni!

Gobeithio gweld chi yn ystod y Gwyliau! 🙂

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, plîs cysylltu gyda ni.

Cofion Gorau

**Adran Nofio Yr Urdd**
Nofio@urdd.org
02922 405339

